



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 429 (Cy. 19)

2001 No. 429 (W.19)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU,**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES,**

CYLLID

FINANCE

**Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r
Parciau Cenedlaethol (Cymru)
(Diwygio) 2001**

**The National Park Authorities
Levies (Wales) (Amendment)
Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 ("y Prif Reoliadau") yn darparu bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gosod ardollau ar gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol Cymru fel awdurdodau bilio ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yn Nghymru.

Diwygiwyd y Prif Reoliadau gan Reoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 1996 ("Rheoliadau 1996").

Gwnaed diwygiadau pellach i'r Prif Reoliadau gan Reoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000 ("Rheoliadau 2000").

Effaith Rheoliadau 2000 oedd:

- a) diddymu'r darpariaethau yn y Prif Reoliadau (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 1996) a oedd yn atal awdurdod Parc Cenedlaethol rhag gosod ardoll cyn 15 Ionawr yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol yr oedd yr ardoll yn perthyn iddi, oni bai fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu maint y grant yr oedd yn barod i'w

The National Park Authorities (Levies) (Wales) Regulations 1995 ("the Principal Regulations") provide for the issue of levies by National Park Authorities to Welsh county or county borough councils as billing authorities for National Parks in Wales.

The Principal Regulations were amended by the National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 1996 ("the 1996 Regulations").

Further amendments to the Principal Regulations were made by the National Park Authorities Levies (Wales) (Amendment) Regulations 2000 ("the 2000 Regulations").

The effect of the 2000 Regulations was:

- a) to revoke the provisions in the Principal Regulations (as amended by the 1996 Regulations) which prevented a National Park authority from issuing a levy before the 15 January in the financial year preceding the financial year to which the levy related, unless the National Assembly for Wales had made a

roi i'r awdurdod o dan adran 72 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

- b) diddymu'r darpariaethau yn y Prif Reoliadau oedd yn darparu fformwla ar gyfer cyfrifo mwyafswm yr ardoll y gallai awdurdod Parc Cenedlaethol ei osod;
- c) pennu mwyafswm yr ardollau y gallai pob awdurdod Parc Cenedlaethol ei osod ar gyfer y blynyddoedd ariannol a fyddai'n dechrau yn 2000 a 2001.

Effaith y Rheoliadau hyn yw ailsefydlu'r darpariaethau hynny yn y Prif Reoliadau (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 1996) a ddiddymwyd gan Reoliadau 2000 ond heb effeithio ar y darpariaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd yn 2000.

determination of the amount of grant it was prepared to give the authority under section 72 of the Environment Act 1995;

- b) to revoke the provisions in the Principal Regulations which provided a formula for calculating the maximum amount of the levy which a National Park authority could issue;
- c) to fix the maximum amount of the levies which each National Park authority could issue in respect of the financial years beginning in 2000 and 2001.

The effect of these Regulations is to re-instate those provisions of the Principal Regulations (as amended by the 1996 Regulations) which were revoked by the 2000 Regulations but without affecting the provisions for the financial year which began in 2000.

2001 Rhif 429 (Cy. 19)**2001 No. 429 (W.19)****LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU,****LOCAL GOVERNMENT,
WALES,****CYLLID****FINANCE****Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r
Parciau Cenedlaethol (Cymru)
(Diwygio) 2001****The National Park Authorities
Levies (Wales) (Amendment)
Regulations 2001***Wedi'u gwneud* 15 Chwefror 2001*Made* 15th February 2001*Yn dod i rym* 16 Chwefror 2001*Coming into force* 16th February 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 74, 140(4) a 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (a) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a phob pwr arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 74, 140(4) and 143(2) of the Local Government Finance Act 1988 (a) and now vested in the National Assembly for Wales and of all other powers enabling it in that behalf, makes the following Regulations.

Enwi, cychwyn a dehongli**Citation commencement and interpretation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru)(Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 16 Chwefror 2001.

1.-(1) These Regulations may be cited as the National Park Authorities Levies (Wales) (Amendment) Regulations 2001 and shall come into force on 16th February 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn:

(2) In these Regulations:

ystyr "y Prif Reoliadau" (*"the Principal Regulations"*) yw Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 (b);

"the Principal Regulations" (*"y Prif Reoliadau"*) means the National Park Authorities Levies (Wales) Regulations 1995 (b);

ystyr "Rheoliadau 1996" (*"the 1996 Regulations"*) yw Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 1996 (c);

"the 1996 Regulations" (*"Rheoliadau 1996"*) means the National Park Authorities Levies (Wales) (Amendment) Regulations 1996 (c);

Ystyr "Rheoliadau 2000" (*"the 2000 Regulations"*) yw Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000 (ch).

"the 2000 Regulations" (*"the 2000 Regulations"*) means the National Park Authorities Levies (Wales) (Amendment) Regulations 2000 (d).

(a) 1988 p. 41

(b) OS 1995 / 3019

(c) OS 1996 / 291

(a) OS 2000 / 244 (Cy. 2)

(a) 1988 c. 41

(b) SI 1995 / 3019

(c) SI 1996 / 291

(d) SI 2000 / 244 (W. 2)

Diddymu Rheoliadau 2000

2. Diddymir trwy hyn Reoliadau 2000.

Ailsefydlu darpariaethau'r Prif Reoliadau

3. Bydd y darpariaethau a wnaed gan y Prif Reoliadau (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 1996) yn effeithiol fel yr oeddent yn union cyn i Reoliadau 2000 ddod i rym.

Darpariaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd yn 2000

4. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed yn unol â darpariaethau Rheoliadau 2000 mewn perthynas ag unrhyw ardoll gan awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (a)

D. Elis Thomas

15 Chwefror 2001

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Revocation of the 2000 Regulations

2. The 2000 Regulations are hereby revoked.

Re-instatement of provisions of the Principal Regulations

3. The provisions of the Principal Regulations (as amended by the 1996 Regulations) shall have effect as they existed immediately prior to the 2000 Regulations coming into force.

Provision for the financial year which began in 2000

4. These Regulations do not affect the validity of anything done in accordance with the provisions of the 2000 Regulations in relation to any levy by a National Park authority for the financial year which began on 1 April 2000.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 (a)

15 February 2001

Presiding Officer of the National Assembly for Wales

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 429 (Cy. 19)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU,**

CYLLID

**Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r
Parciau Cenedlaethol (Cymru)
(Diwygio) 2001**

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 429 (W.19)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES,**

FINANCE

**The National Park Authorities
Levies (Wales) (Amendment)
Regulations 2001**

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/219/08/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090322-6



9 780110 903224